# PWYLLGOR CYNLLUNIO

Dydd Iau, 2 Mai 2019

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd A. Lenny (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
J.E. Williams, J.M. Charles, I.W. Davies, J.A. Davies, A. Lenny, M.J.A. Lewis, K. Madge, P.M. Edwards, W.T. Evans, J.K. Howell, J.D. James, H.I. Jones, G.B. Thomas, S.M. Allen, C. Jones, D. Jones, S.J.G. Gilasbey and B.D.J. Phillips

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
G. Noakes, Uwch Swyddog Rheoli Datblygu (y Dwyrain)
S. Murphy, Uwch-gyfreithiwr
Z.A. Evans, Uwch-dechnegydd (Cyswllt Cynllunio)
K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Hefyd yn Bresennol:**
G. Morgan, Ymgynhorwr Fframwaith i'r Cyngor (Atkins)

**Siambr- Neuadd Y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP. - 10.00 - 10.30 yb**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Ni chafwyd dim ymddiheuriadau am absenoldeb

## 2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL

| Y Cynghorydd | Rhif y Cofnod | Y Math o Fuddiant |
|---|---|---|
| S.M. Allen | 3.1 – Cais Cynllunio W/37160 – Adeilad amaethyddol i storio peiriannau fferm, biniau bwyd ar gyfer da byw a storio cynnyrch, Pwll Llallau, Cwmfelin-boeth, Hendy-gwyn ar Daf, SA34 0RU | Mae un o'r gwrthwynebwyr yn ffrind iddi |

## 3. RHANBARTH Y GORLLEWIN - PENDERFYNU AR GEISIADAU CYNLLUNIO

**3.1 PENDERFYNWYD caniatáu'r cais cynllunio canlynol yn unol â'r amodau a nodwyd yn Adroddiad y Pennaeth Cynllunio a/neu y rhoddwyd gwybod amdanynt yn y cyfarfod:-**

| | |
|---|---|
| W/37160 | Adeilad amaethyddol i storio peiriannau fferm, biniau bwyd ar gyfer da byw a storio cynnyrch, Pwll Llallau, Cwmfelin-boeth, Hendy-gwyn ar Daf, SA34 0RU<br><br>(NODER: Gadawodd y Cynghorydd S. M. Allen, a oedd wedi datgan buddiant yn gynharach yn yr eitem hon, Siambr y Cyngor tra oedd y Pwyllgor yn ystyried y cais) |

3.2 **PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ohirio ystyried y cais cynllunio canlynol er mwyn i ymchwiliadau pellach gael eu cynnal yn ymwneud â pherchenogaeth tir ac er mwyn i'r Pwyllgor ymweld â'r safle:**

| | |
|---|---|
| W/38125 | Cynllun i ddatblygu 36 o breswylfeydd a gwaith cysylltiedig ar dir i'r de o ystad Dôl y Dderwen, Llangain, Sir Gaerfyrddin SA33 5BE<br><br>**Y RHESWM:** Er mwyn galluogi'r Pwyllgor i weld y trefniadau o ran mynd i mewn ac allan o'r safle yn sgil pryderon am ddiogelwch priffyrdd. |

## 4. LLOFNODI YN COFNOD CYWIR COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR

### 4.1. 19EG MAWRTH, 2019

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar 19 Mawrth 2019 gan eu bod yn gywir.**

### 4.2. 4YDD EBRILL 2019

Tynnwyd sylw'r Pwyllgor at y bleidlais ynghylch ceisiadau cynllunio E/37577 a S/34180 a dywedwyd bod 'penderfynwyd yn unfrydol' wedi cael ei gofnodi'n anghywir ac y dylai 'penderfynwyd' fod wedi cael ei gofnodi.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar 4 Ebrill, 2019 yn gofnod cywir yn amodol ar newid y penderfyniadau ynghylch ceisiadau cynllunio E/37577 a S/34180 i ddarllen 'PENDERFYNWYD'.**

________________________ __________________

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**

[SYLWER: *Mae'r cofnodion hyn yn dilyn trefn y materion oedd ar agenda'r cyfarfod, a allai fod yn wahanol i drefn y materion mewn unrhyw weddarllediad gan y byddid wedi ymdrin gyntaf ag unrhyw geisiadau yr oedd aelodau o'r cyhoedd yn bresennol i siarad amdanynt.*]